Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

19 Medi, 2025

TEITL: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer Uchelgais Gogledd Cymru.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel a nodir isod.

## 4. CEFNDIR A PHROSES

4.1. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

4.2. Gofyniad Rheoliad 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad Uchelgais Gogledd Cymru.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn codi o'r adroddiad hwn.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Datganiad Llywodraethu Blynyddol

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Rwy'n fodlon bod y Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchiad teg a chywir o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y cyn Gyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Gyda diddymu'r Cyd-bwyllgor ar drosglwyddo ei swyddogaethau i Gyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd fel corff olynol, dyma'r fforwm gwneud penderfyniadau priodol i gymeradwyo'r datganiad."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Rwyf yn fodlon fod y Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru yn 2024/25, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Mae'r datganiad yn cwrdd â'r gofyn i ddisgrifio fframwaith lywodraethu Uchelgais Gogledd Cymru, ac i asesu pa mor effeithiol mae'n gweithredu.

Mae'r Datganiad yn mynd i'r afael yn briodol â digwyddiad ôl-fantolen arwyddocaol, sef trosglwyddiad swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar 1 Ebrill 2025."